

Mark Drakeford AC / AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: SF/MD/3816/14

David Rees AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd

HSCCommittee@wales.gov.uk

27 Tachwedd 2014

Annwyl David.

**Ymateb i'r ymchwiliad i'r cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yma ar weithredu
Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser Llywodraeth Cymru**

Diolch i chi am y cyfle i ymateb i'ch ymchwiliad i'r cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yma ar y Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser. Rydym ni wedi ystyried yr 13 argymhelliad a wnaed gan y pwyllgor yn llawn ac wedi datgan ein ymateb i bob un yn Nogfen 1.

Er ein bod yn cytuno mewn egwyddor â'r rhan fwyaf o'r argymhellion, ni fyddem yn adrodd yn ôl yn uniongyrchol i'r pwyllgor ar yr argymhellion ymhen 12 mis lle gwneir cais am hyn. Cynhyrchir adroddiadau blynyddol ar gynnydd bob mis Rhagfyr a bydd cyfle i'r pwyllgor fonitro cynnydd drwy gyfrwng y broses hon. Nid ydym yn dymuno gweld dyblygu yn y gweithdrefnau adrodd yn ôl.

Mae'r dystiolaeth a'r trafodaethau yn y pwyllgor wedi dangos bod y cynllun cyflawni'n datgan llwybr clir, y cytunwyd arno, ar gyfer gwella'r gwasanaeth a bod cynnydd yn cael ei wneud. Bydd cyflawni uchelgais unrhyw bolisi yn llawn yn cymryd amser ac mae'n rhaid ei gwblhau fesul cam.

Fe fydd Y Dirprwy Weinidog Iechyd Vaughan Gething AC yn ymateb i'r drafodaeth ar 10 Rhagfyr.

Yn gywir

Mark Drakeford AC / AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)
recycled paper*

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence: Mark.Drakeford@wales.gsi.gov.uk
Printed on 100%

YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I ARGYMHELLION Y PWYLLGOR IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: YMCHWILIAD I'R CYNNYDD SYDD WEDI'I WNEUD HYD YMA AR WEITHREDU CYNLLUN CYFLAWNI AR GYFER CANSER LLYWODRAETH CYMRU

TACHWEDD 2014

Argymhelliad 1

Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sicrhau bod corff yn bodoli sydd â'r cylch gwaith a'r adnoddau i lywio'r broses o gyflawni Cynllun Cyflawni ar gyfer Cancer Llywodraeth Cymru ar lefel genedlaethol, dwyn byrddau iechyd i gyfrif am gyflawni eu cynlluniau lleol a blaengynllunio gwasanaethau cancer mewn ffordd strategol.

Ymateb: Derbynn

Mae'r atebolrwydd am GIG Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy Lywodraeth Cymru. Mae pob bwrdd iechyd yn gyfrifol am y gwasanaethau maent yn eu darparu i'w poblogaethau. Mae pob bwrdd yn adrodd yn ôl yn gyhoeddus ar berfformiad.

Mae'r Grŵp Gweithredu Cancer yn cyflawni swyddogaeth oruchwylio genedlaethol bwysig, gan bennu blaenoriaethau a chynnig her drwy ddod â chlinigwyr, llunwyr polisïau a grwpiau diddordeb allweddol at ei gilydd. Maent yn gweithio ar y cyd ar gynllunio strategol cenedlaethol sy'n seiliedig ar gyflawni amcanion a rennir.

Mae'r grŵp gweithredu wedi cydnabod ei hun bod angen sicrhau bod strwythurau cancer Cymru'n sbarduno perfformiad. Mae prosiect i wneud strwythur a gwaith y cyrff niferus sy'n ymwneud â gwasanaethau cancer yn fwy effeithiol, ar ffurf model sefydliadol clir, wedi cael ei sefydlu. Bydd hwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod y rhwydweithiau cancer, y grwpiau cynghori a chyrrff eraill yn gweithio'n well at yr un nod, i sbarduno cyflawni a pherfformio gyda llais clinigol cadarn.

Er hynny, nid swyddogaeth un grŵp cenedlaethol ar ei ben ei hun yw sbarduno gweithgarwch. Rhaid i'r gweithredu ddigwydd ar bob lefel yn GIG Cymru. Mae adroddiadau blynyddol ar lefel leol a chenedlaethol yn cael eu cynhyrchu'n gwbl agored, mae dangosyddion perfformiad yn bwydo i brosesau cynnydd Llywodraeth Cymru, ac mae archwiliadau clinigol cenedlaethol, prosesau adolygu cymheiriaid, adolygiadau allanol, a rhoi gwybod am gwynion a digwyddiadau, i gyd yn cyfrannu at fonitro a herio cynnydd wrth roi'r cynllun ar waith. Hefyd, mae'n rhaid i gymunedau lleol chwarae rhan weithredol mewn herio a chefnogi cyflawni cynlluniau lleol.

Argymhelliad 2

Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol atgoffa byrddau iechyd o'r gofyniad yn y Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser iddynt gyhoeddi eu cynlluniau cyflawni lleol ar gyfer canser a'u hadroddiadau blynyddol ar eu gwefannau er mwyn galluogi'r cyhoedd i'w dwyn i gyfrif, a dylai ofyn i fyrddau iechyd arddangos y wybodaeth hon yn amlwg a sicrhau ei bod yn hawdd cael gafael arni.

Ymateb: Derbyn

Mae'r byrddau iechyd i gyd wedi cyhoeddi cynlluniau ac adroddiadau ar eu gwefannau. Ceir enghreifftiau o arfer da lle mae byrddau wedi creu tudalennau penodol i gyflwyno cynlluniau'n glir. Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda byrddau iechyd os nad yw'r cynlluniau'n hawdd i'w canfod, i sicrhau bod y dogfennau ar gael yn hwylus.

Argymhelliad 3

Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar ôl 12 mis am y strategaeth ar gyfer targedu ymgyrchoedd atal canser at grwpiau mwy anodd eu cyrraedd ac ardaloedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig, gan gynnwys gwybodaeth am y terfynau amser bwriadedig, goblygiadau ariannol a sut y caiff effeithiolrwydd ymgyrchoedd ei fesur.

Ymateb: Derbyn

Bydd gwybodaeth am ymgyrchoedd perthnasol ar gael yn Adroddiad Blynyddol 2015 ar Ganser, a gyhoeddir ym mis Rhagfyr 2015. Bydd ar gael i'r pwyllgor.

Argymhelliad 4

Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar ôl 12 mis am y camau a gymerwyd i sicrhau y caiff pob cyfle i hyrwyddo gwasanaethau sgrinio ymhlith grwpiau mwy anodd eu cyrraedd ei ystyried ac y manteisir ar y cyfleoedd hynny, ac effaith gwaith hyrwyddo o'r fath ar nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn.

Ymateb: Derbyn

Mae lleihau'r annhegwch o ran y defnydd o wasanaethau sgrinio'n flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac i Ymddiriedolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae tair elfen yn perthyn i'r dull strategol o roi sylw i annhegwch mewn sgrinio ledled Cymru. Y tair elfen yw: sefydlu negeseuon clir a chyson; sicrhau bod y negeseuon yn cael eu cyfathrebu yn y ffordd fwyaf priodol i'r gynulleidfa; a mabwysiadu dull partneriaeth o weithredu mewn perthynas â'r gwaith hwn. Mae

Iechyd Cyhoeddus Cymru'n gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys timau iechyd y cyhoedd, Cymunedau yn Gyntaf a grwpiau cymunedol, i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb.

Mae Tîm Ymgysylltu â Sgrinio Ymddiriedolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru'n targedu cymunedau penodol lle mae'r nifer sy'n defnyddio'r gwasanaethau'n isel. Maent yn gweithio gyda chymunedau i greu mwy o ymwybyddiaeth o sgrinio ac i ganfod y rhwystrau sy'n bodoli mewn cymuned, gan adnabod a rhoi sylw i'w hanghenion. Ymhlith yr enghreifftiau o waith gyda chymunedau penodol mae prosiect gyda chymuned drawsrywiol lle cynhyrchwyd gwybodaeth benodol am gleifion a hefyd hyfforddiant i weithwyr iechyd proffesiynol; gwaith parhaus gyda chymuned deithiol o sipsiwn; a gwaith sy'n dechrau yn awr gydag arweinwyr cymunedol mewn mosgiau. Mae 'hyfforddi'r hyfforddwr' yn ddull sy'n cael ei ddefnyddio fel bod modd i bobl sydd eisoes wedi ennill ymddiriedaeth cymunedau penodol rannu'r negeseuon yn ehangach.

Mae gan Wasanaethau Sgrinio'r Coluddyn yng Nghymru Grŵp Defnydd sy'n edrych ar ymyriadau i gynyddu'r nifer sy'n eu defnyddio ar lefel weithredol. Dylid gwerthuso unrhyw ymyriadau a roddir ar waith, er mwyn edrych ar yr effaith ar y defnydd ar draws y boblogaeth gyfan ac mewn grwpiau penodol, gan roi sylw i oedran, rhyw, cyni a ffactorau eraill. Rhaid rhannu'r dysgu gyda rhaglenni sgrinio eraill.

Mae cyfraddau cymryd rhan gwasanaethau sgrinio'r fron a cheg y groth yn 2013-14 yn dangos bod y rhaglenni'n bodloni safonau cenedlaethol, gyda 70.8% yn gwneud defnydd o wasanaethau sgrinio'r fron (safon - 70%) a 78.6% ar gyfer ceg y groth (safon - 80%). Mae ein canran ar gyfer sgrinio ceg y groth yr uchaf yn y DU yn gyffredinol. Byddwn yn cynnwys gwybodaeth am y nifer sy'n defnyddio'r gwasanaethau sgrinio yn adroddiad blynyddol 2015 a bydd ar gael i'r Pwyllgor.

Argymhelliad 5

Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol weithio gyda Deoniaeth Cymru a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol er mwyn sicrhau bod hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus meddygon teulu yn codi ymwybyddiaeth o symptomau cancer, diagnosis cynnar, a'r adnoddau sydd ar gael i helpu meddygon teulu i gyflawni eu rolau.

Ymateb: Derbyn

Aethom ati i wneud atal cancer a diagnosis cynnar yn Faes Blaenoriaeth Cenedlaethol ar gyfer Meddygon Teulu eleni (2014/15) drwy ein trafodaethau contract. Mae'n ofynnol i bob Meddyg Teulu adolygu achosion o ganser yr ysgyfaint a chanser gastroberfeddol yn eu gwaith, fel sail i'w dealltwriaeth o brofiad y claf ac i ddeall yr elfennau posib sy'n rhwystro ac yn galluogi diagnosis cynnar. Mae meddygfeydd yn trafod y canfyddiadau ac yn datgan camau gweithredu er mwyn gwella'r gofal, lle bo angen. Rydym yn gweithio'n agos â'r Rhwydweithiau Canser a'r Trydydd Sector - Cancer Research UK a Macmillan - i

gefnogi a datblygu'r gwaith hwn. Mae hefyd yn cyd-fynd â'r gwaith o ddatblygu gwaith ymchwil rhyngwladol drwy gyfrwng y Prosiect Meincnodi Canser Rhyngwladol y mae Cymru'n cyfrannu ato.

Bydd unrhyw broblemau hyfforddi neu ddatblygu'n cael eu rhannu gyda chydweithwyr yn y Ddeoniaeth a thrwy raglenni datblygu yn y byrddau iechyd. Rydym hefyd yn parhau i weithio'n agos â Choleg Brenhinol y Meddygon Teulu, sy'n darparu ystod eang o adnoddau addysgol.

Y Cyngor Meddygol Cyffredinol yw'r corff rheoleiddio felly ni fyddai'n ymwneud yn uniongyrchol â'r rhaglen addysgol, ond byddai'n cymryd camau gweithredu pe bai safonau'r gofal yn gostwng yn is nag Arferion Meddygol Cyffredinol.

Argymhelliad 6

Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd gymryd camau i sicrhau bod meddygon teulu yn glir ynghylch y gwasanaethau sydd ar gael a'r trefniadau atgyfeirio sydd ar waith yn eu hardal.

Ymateb: Derbyn

Mae ein cynllun cenedlaethol newydd ar gyfer y gwasanaeth gofal sylfaenol yng Nghymru'n datgan camau gweithredu allweddol ar gyfer byrddau iechyd, gan weithio gyda'r holl ddarparwyr i sicrhau gwelliannau yn y maes hwn. Mae'r cynllun yn cynnwys ymrwymiad penodol i ddatblygu cyfeirlyfrau gwasanaeth i gefnogi clystyrau gofal sylfaenol ac i sefydlu meini prawf atgyfeirio a llwybrau gofal lleol.

Mae gan lawer o fyrddau iechyd gyfeirlyfrau o'r fath eisoes ac mae'r wybodaeth hon ar eu gwefannau. Hefyd, mae gan rai byrddau iechyd rifau cyswllt uniongyrchol clinigwyr, i drafod achosion a phryderon yn unol ag arfer gorau. Mae'r cynllun gofal sylfaenol yn datgan sut byddwn yn adeiladu ar yr arfer da hwn.

Byddem yn disgwyl i waith y Meddygon Teulu, yn sgil y cynlluniau gweithredu clwstwr, ddatgan pryd mae angen cam gweithredu penodol yn sail i'r datblygiadau hynny, gan weithio gyda'u byrddau iechyd i sicrhau datrysiadau.

Argymhelliad 7

Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wneud datganiad ar ganfod canser, gan gynnwys triniaethau diagnostig, strategaeth y Gweinidog i gefnogi diagnosteg ledled Cymru, ac effaith yr arian ychwanegol a ddarperir yn 2014-15 a'r gwerth am arian sy'n deillio o'r arian hwnnw.

Ymateb: Derbyn

Bydd datganiad yn cael ei wneud yn y flwyddyn newydd.

Argymhelliad 8

Er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch ledled Cymru, dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sefydlu panel cenedlaethol i ystyried Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol a gwneud penderfyniadau yn eu cylch.

Ymateb: Gwrthod

Fis Hydref 2013, comisiynodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol adolygiad o'r broses Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol, gan edrych yn benodol ar gysondeb rhwng panelau a chyfathrebu â chleifion. Mae'r Grŵp Adolygu wedi dod i'r casgliad bod y broses Geisiadau hon yn cefnogi penderfyniadau rhesymegol, seiliedig ar dystiolaeth, o ran sicrhau technolegau meddygol ac anfeddygol nad ydynt ar gael fel rheol yng Nghymru. Hefyd, mae'r Grŵp wedi gwneud sawl argymhelliad ar gyfer gwella'r broses Geisiadau hon, drwy gryfhau'r mewnbwn clinigol a gwella'r cysondeb rhwng panelau a'r cyfathrebu â chleifion. Ni wnaeth y grŵp argymhell panel cenedlaethol oherwydd roedd yn credu ei bod yn anymarferol ac yn annoeth dod â staff a chlinigwyr allweddol ledled Cymru at ei gilydd yn rheolaidd i wneud penderfyniadau am Geisiadau Cyllido Cleifion Unigol. Fel y dynodwyd yn y datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd mewn perthynas â'r argymhellion hyn, byddwn yn adolygu'r broses eto ar ôl i'r trefniadau adolygedig gael cyfle i sefydlu.

Argymhelliad 9

Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar ôl 12 mis am y camau a gymerwyd, gan gynnwys y canllawiau y mae wedi ymrwymo i'w darparu, a'r cynnydd a wnaed gan fyrdau iechyd i sicrhau bod gofynion y Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser i bob claf gael ei neilltuo i weithiwr allweddol a chael cynllun gofal ysgrifenedig wedi'u bodloni erbyn 2016.

Ymateb: Derbyn

Mae cyfarwyddyd adolygedig ar rôl y gweithiwr allweddol wedi cael ei lunio gan y Grŵp Gweithredu Canser ac fe'i cyhoeddwyd i'r byrddau a'r ymddiriedolaethau iechyd i gyd gan Brif Weithredwr GIG Cymru fis Hydref 2014 (wedi'i gynnwys yn Atodiad 1). Byddwn yn gweithio gyda'r Rhwydweithiau Canser i sefydlu prosesau i fonitro'r gwaith o weithredu'r cyfarwyddyd hwn. Byddwn yn cyflwyno diweddariad yn yr adroddiad blynyddol nesaf ar ganser ym mis Rhagfyr 2015 a bydd hwn ar gael i'r Pwyllgor.

Argymhelliad 10

Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nodi'r camau a gymerir, ynghyd â'r terfynau amser cysylltiedig â'r goblygiadau ariannol, i fynd i'r afael ag anghenion ôl-ofal y niferoedd cynyddol o bobl sy'n byw gyda chanser yn y tymor hwy. Dylai camau gweithredu o'r fath ystyried anghenion meddygol ac anfeddygol cleifion.

Ymateb: Derbyn

Mae'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser yn datgan yn glir eisoes ein hymrwymiad i fodloni anghenion ôl-ofal cleifion canser. Dylai'r gwaith o ystyried anghenion cyfannol unigolion, a chynllunio ar gyfer bywyd ar ôl triniaeth, ddechrau ar ddechrau'r llwybr canser a pharhau ar ei hyd.

Bydd y camau gweithredu yn y cynllun sy'n berthnasol i gadarnhau mynediad i gyngor ariannol a chyngor arall, gan sicrhau bod gan Feddygon Teulu grynodedbau 'diwedd triniaeth' priodol, ac i neilltuo gweithwyr allweddol a chynllunio gofal yn effeithiol, yn cefnogi cyflawni uchelgais yr argymhelliad hwn.

Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y camau gweithredu hyn ac yn cyhoeddi'r cynnydd yn flynyddol.

Argymhelliad 11

Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nodi'r camau a gymerir, ynghyd â'r terfynau amser cysylltiedig a'r goblygiadau ariannol, i fynd i'r afael â mynediad anghyfartal at ofal diwedd oes a gofal lliniarol, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar ôl 12 mis am effaith y camau hynny.

Ymateb: Derbyn

Cyhoeddwyd Law yn Llaw at Iechyd: Darparu Gofal Diwedd Oes ym mis Ebrill 2013 ac mae'n datgan camau gweithredu i sicrhau gwelliannau mewn Gofal Diwedd Oes. Cyhoeddwyd yr adroddiad blynyddol cyntaf ar 28 Hydref 2014 ac mae ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru;

<http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/reports/end-of-life/?lang=en>.

Cyhoeddir ail Adroddiad yn chwarter olaf 2015 a bydd ar gael i'r Pwyllgor.

Argymhelliad 12

Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, fel mater o flaenoriaeth, ystyried datblygu System Gwybodaeth Rhwydweithiau Canser Cymru neu gyflwyno system newydd yn ei lle, a sicrhau bod blaenoriaethau clinigol a blaenoriaethau o ran ymchwil yn cael eu hystyried, gan gynnwys cyfnodau o ofal eilaidd.

Ymateb: Derbyn

Mae Gwasanaeth Gwybodaeth GIG Cymru wedi dechrau gweithio ar y cyd â Chanolfan Ganser Felindre i benderfynu ar ddatrysiadau tymor hwy ar gyfer systemau a ddefnyddir i gasglu data am ganser a darparu gwybodaeth ar gyfer defnydd eilaidd.

Tra mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo, mae Gwasanaeth Gwybodaeth GIG Cymru wedi derbyn cyllid cyfalaf ar gyfer gwelliannau i CANISC yn 2014-15, sy'n ystyried blaenoriaethau clinigol ac ymchwil a hefyd yn sicrhau data gwell i'w defnyddio mewn gofal eilaidd.

Argymhelliad 13

Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nodi'r camau gweithredu a gymerir, ynghyd â'r terfynau amser cysylltiedig, i sicrhau y caiff meddyginiaethau haenedig eu datblygu a'u darparu yng Nghymru.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod pwysigrwydd meddyginiaeth haenedig ac mae wedi ymrwmo i gefnogi ymchwil sy'n sicrhau ei photensial gorau i ddarparu gofal iechyd gwell a darbodus mewn ystod o feysydd afiechyd, gan gynnwys canser.

Bydd rhaid i system iechyd Cymru ddatblygu cyfleusterau a gwasanaethau priodol ar gyfer meddyginiaeth genomig. Prif ffocws y gweithgarwch presennol yw galluogi gwerthusiad priodol o ganlyniadau cleifion fel rhan o waith ymchwil i ddulliau meddygaeth haenedig, yn benodol, drwy dreialon clinigol o ansawdd uchel. Mae cyswllt anorfod rhwng datblygu camau gweithredu priodol i ddarparu gwasanaeth â chanlyniadau ac amserlenni cysylltiedig â'r ymdrech ymchwil bresennol.

Dyma'r camau gweithredu mwyaf arwyddocaol a gysylltir â datblygu meddyginiaeth haenedig ym maes canser yng Nghymru ar hyn o bryd, ac â darparu gwasanaethau yn y maes hwn:

- cynnal buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn seilwaith i gefnogi ein cymuned ymchwil graidd, gan gynnwys Banc Canser Cymru, y Ganolfan Arbrol ar gyfer Meddyginiaeth Canser, yr Uned Ymchwil Biofeddygol i Eneteg Canser a Pharc Genynnau Cymru. Gyda'i gilydd, mae'r buddsoddiadau hyn eisoes wedi galluogi Cymru i ddatblygu gallu ac enw da yn rhyngwladol mewn geneteg a genomeg. Gyda rhagor o fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru, rydym yn disgwyl i hyn barhau;
- ein rôl arweiniol yn Rhaglen Meddyginiaeth Haenedig Cancer Research UK. Dyma raglen sydd wedi symud i'w hail gam eleni ac sydd ag uchelgais greiddiol o fynd i'r afael â'r heriau o ran darparu profion moleciwlaidd ar raddfa fawr ym maes canser yn y GIG; a

- cynnwys ein cymunedau clinigol ac ymchwil, a Llywodraeth Cymru, i gefnogi – ac elwa o – raglen pum mlynedd Llwyfan Arloesi Meddyginiaeth Haenedig y DU. Mae'r rhaglen hon yn cael ei harwain gan Innovate UK, gyda diwydiant fel partneriaid allweddol. Ei nod yw cyflymu'r gwaith o ddatblygu a defnyddio meddyginiaeth haenedig. Yn sail i'r rhaglen mae gweledigaeth a map ar y cyd, sy'n cydnabod ac yn cynnwys camau gweithredu i roi sylw i farn y Pwyllgor am bwysigrwydd cynllunio ar gyfer darparu seilwaith a gwasanaethau angenrheidiol.

Yn ychwanegol at y camau gweithredu hyn, ac fel rhan o ddatblygu ei chynlluniau genomeg ar gyfer Cymru, mae Llywodraeth Cymru'n comisiynu adolygiad allanol i ystyried sut gellir llunio cyfleusterau a gwasanaethau meddygaeth genomig yn briodol yng Nghymru, er mwyn bodloni anghenion datblygu clinigol, ymchwil ac economaidd Cymru yn y dyfodol.

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cytuno y bydd cyllid o £20,000 ar gael yn 2014-15 o gyllideb y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd (NISCHR) i gynnal adolygiad o'r seilwaith genomig ledled Cymru.